
**Eglwys Llantysilio**




Eglwys Llantysilio wedi'i chysegru i Sant Tysilio, pererin o'r 7fed ganrif a sefydlodd nifer o gymunedau mynachaidd Cristnogol yng Nghymru, ac yn ddiweddarach yn Ffrainc. Roedd Tysilio yn fab i Brochwel Ysgythrog, sef Tywysog Powys ar ddechrau'r 7fed ganrif. Nid oedd Tysilio yn dymuno dilyn ôl troed ei dad i fywyd o ryfela a lladd ac fe ffodd i Feifod ger Y Trallwng, ble ymunodd â mynachlog o dan Abad Gwyddfarch.

Yn y diwedd cytunodd ei dad y gallai Tysilio ddilyn ei lwybr ei hun, ond gan feddwl y gallai gael ei orfodi i ddychwelyd, enciliodd Tysilio i leoliad mwy anghysbell a sefydlu cymuned ar Ynys Suliau ger y Fenai. Bu'n byw yno am saith mlynedd cyn dychwelyd i Feifod i fod yn Abad pan fu farw Gwyddfarch.

Bu farw Brochwel tad Tysilio ym Mrwydr Caer yn 1613. Yn ôl un stori cafodd Brochwel ei olynu gan frawd Tysilio, ond bu farw hwnnw ddwy flynedd yn ddiweddarach. Roedd gweddw ei frawd yn benderfynol o briodi Tysilio a'i wneud yn Dywysog Powys, ond gan fod Tysilio yn casáu ei chwaer yng nghyfraith yn fwy na'r syniad o fod yn Dywysog, fe ffodd i Lydaw ac ymgartrefodd ger St Malo.


*Eglwys Llantysilio oddeutu 1834.*

Mae'n debyg bod ein Heglwys yn Llantysilio yn gysegriad diweddarach i Tysilio, yn hytrach na lleoliad gwreiddiol llan a feddiannwyd gan y sant. Fodd bynnag, mae lle i gredu bod man addoli paganaidd wedi bod ar y safle cyn sefydlu'r eglwys Gristnogol yma. Dywedir bod rhai rhannau o'r adeilad a welwch nawr yn dyddio'n ôl i 1180. Mae rhai'n dehongli mai dyna'r dyddiad sy'n ymddangos y tu allan, uwchben y ffenestr ganol ar yr ochr ddeheuol. Cofnodwyd Sacerdos de Llan Tessiliau (yr offeiriad o Lantysilio) mewn dogfen yn ymwneud ag Abaty Glyn y Groes gerllaw yn 1234. Yn Taxatio 1254 fe'i cofnodwyd fel 'capellanum de Landesiliau', tra bo Taxatio'r Pab Nicholas yn 1291 yn ei alw yn 'Ecclesia de Landesiliau'. Yn 1535 cyfeiriwyd ato eto fel capel.



*Ai 1180 ynteu 1580 yw'r dyddiad uwchben y ffenestr ar yr ochr ddeheuol?*


Mae'r Eglwys wedi'i hymestyn a'i hailfodelu sawl gwaith. Mae rhai'n darllen y dyddiad uwchben y ffenestr ddeheuol fel 1580, a allai nodi bod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r adeilad bryd hynny. Yn ddiweddarach, cafodd newidiadau eu gwneud yn 1718 (ychwanegu'r capel gogleddol) ac yn 1869 (tynnu'r to, ffenestri a gwneud y capel gogleddol yn fwy), ond mae'r rhan fwyaf o'r wal orllewinol yn dal i fod yn adeiladwaith canoloesol. Yn ôl sylw gan Syr Stephen Richard Glynne, cafodd oriel 'letchwith' ar ochr ogleddol corff yr eglwys ei thynnu i lawr rywbryd ar ôl 1884.


© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.



Ffotograff cynnar o Eglwys Llantysilio cyn tynnu'r ffenestri yn y to ym 1869.

Mae to’r eglwys o ddechrau’r canol oesoedd wedi goroesi hyd heddiw, gan gynnwys y nenfwd baril dros y gysegrfa. Mae trawstiau a thrawslathau’r to derw gwreiddiol i’w gweld yn glir, er i ddistiau’r to gael eu hychwanegu gan y Fictoriaid wrth ail osod llechi ym 1869. Mae band o gerrig gwahanol yn ymledu o waelod y ffenestr orllewinol i lefel y ddaear, sy'n awgrymu bod drws gorllewinol wedi cael ei gau i fyny ar ryw adeg - o bosibl yn ystod y gwaith ailfodelu yn oes Fictoria.



*Mae’n bosibl bod y gwaith carreg gwahanol o dan y ffenestr orllewinol yn dangos bod drws wedi'i lenwi yno.*

### *Y Bedyddfaen*



Mae’r bedyddfaen yn Eglwys Llantysilio yn dyddio’n ôl i’r 14eg ganrif. Mae ganddo sylfaen dywodfaen, coes sythlin, paneli pigfain a phowlen gyda phedeirdalennau sy’n cynnwys tariannau a blodau.



### *Y Ddarllenfa*

Mae sylfaen y ddarllenfa dderw yn gymharol fodern, ond mae’r aderyn yn gynharach, o bosibl yn dyddio’n ôl i’r 15fed ganrif. Mae dadl ynghylch p’un ai eryr ynteu gigfran yw’r aderyn. Mae’r pen yn edrych yn fwy tebyg i gigfran, tra bo’r coesau a’r crafangau yn edrych fel pe baent yn perthyn i eryr. Ychydig iawn o ddarllenfeydd eryr y gwyddom amdanynt o'r oes hon yng Nghymru a Lloegr. Roedd un, sydd bellach yn Amgueddfa Victoria ac Albert, yng nghapel Castell y Waun yn wreiddiol.

### *Gwrthgefn yr Allor*

Gosodwyd gwrthgefn yr allor gan deulu Thomas o Blas Llantysilio er cof am George Oliver Thomas, a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae’n cynnwys cerfiadau o bedwar sant, Sant Pedr, sy’n dal allwedd i’r nefoedd, Sant Tysilio, sy’n dal llyfr, Sant Asaff, sy’n dal pysgodyn a ffon a Dewi Sant, sy’n dal llyfr a ffon.



*Sant Peter*



*Sant Tysilio*



*Sant Asaph*



*Sant David*



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.

*Yr Organ*


Adeiladwyd yr organ yn 1921 gan P. Conacher a'i Fab o Huddersfield. Gyda thros 180 o bibellau pren a 350 o bibellau metel, costiodd yr organ £1,030, gan gynnwys yr holl ddeunyddiau, llafur a gwaith gosod. Mae'n cynnwys dwy allweddell a bwrdd pedal, gyda chas derw wedi'i fygu i gyd-fynd â'r gwaith coed presennol yn y Gangell.  Roedd y meginau yn cael eu gweithredu'n wreiddiol gyda lifer llaw, a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan fodur trydan.






*Y Groglen*

Cafodd y groglen hefyd ei chodi er cof am George Oliver Thomas, a thri ar ddeg o ddynion ifanc eraill o Lantysilio a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.



*Y tu mewn i'r Eglwys cyn i'r groglen a'r gwrthgefn gael eu gosod, a chyda'r pulpud carreg gwreiddiol.*



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.

## Cofebau yn yr EglwysLlantysilio

*Syr Theodore a Helena Faucit Martin*

Ym 1865, prynodd Syr Theodore a'r Fonesig Helena Faucit Martin fwthyn bychan o'r enw Braich y Gwynt, ychydig i lawr y ffordd o'r Eglwys. Cafodd y tŷ ei ailenwi yn Bryntysilio, cafodd ei ehangu yn helaeth a chwblhawyd y gwaith yn 1870.




Cofeb Helena Faucit Martin.

Roedd Helena Faucit Saville yn actores hynod lwyddiannus a chwaraeodd rannau niferus mewn theatrau ar draws Llundain a dinasoedd eraill o 1836 ymlaen. Ym 1851 priododd Syr Theodore Martin, cyfreithiwr ac asiant seneddol, yn ogystal ag awdur. Mae'n debyg ei fod yn fwyaf adnabyddus am ei waith 'Life of the Prince Consort', a ysgrifennwyd rhwng 1874 ac 1880. Rhoddwyd y dasg o ysgrifennu'r gwaith hwn yn ei ofal gan y Frenhines Victoria, a thrwyddo daethant yn gyfeillion oes, cymaint felly nes yn 1889, y daeth y Frenhines Victoria i Fryntysilio am de pan ymwelodd â Llangollen.




Cofeb Syr Theodore Martin.

Bu farw Helena ym Mryntysilio yn 1898 ond cafodd ei chladdu ym Mynwent Brompton. Roedd cerflun alto relievo cain, yn cynnwys ffigwr hyd lawn o'r Fonesig Martin, gan John Henry Foley, wedi'i arddangos yn yr Academi Frenhinol ym 1856. Oherwydd ei fod am gael cofeb barhaol i'w wraig, comisiynodd Syr Theodore Martin atgynhyrchiad marmor o'r cerflun gan J. Hughes o Ddulyn a chafodd ei osod yn yr Eglwys hon. Bu farw Syr Theodore 11 mlynedd yn ddiweddarach yn 1909, a chafodd Cofeb ei gosod rhwng y Gangell a'r Capel Gogleddol er cof amdano.



Robert Browning.

*Robert Browning*

Roedd cyfaill Helena Faucit Martin, y bardd Robert Browning, yn mynychu'r Eglwys bob dydd Sul pan ddaeth i aros yn Llangollen yn 1886, gan eistedd yn sêt fawr Theodore a Helena Martin. Flwyddyn wedi ei farwolaeth yn 1889, gosododd Helena Faucit Martin blac pres wrth ymyl y man yr arferai eistedd.




Cofeb Robert Browning.



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund





## Y Teulu Jones


Mae'r gofeb drawiadol hon, ar y wal orllewinol y tu mewn i'r Eglwys, yn coffáu rhai o drigolion mwy cyfoethog y plwyf. Roedd John Jones a Mary (Williams cyn hynny) yn byw ar Fferm Colomendy yn yr Hôb, Sir y Fflint. Ganwyd eu merch Elizabeth yn 1696. Priododd Edward Jones yn 1721, ond yn anffodus, llai na blwyddyn yn ddiweddarach yn 1722, bu farw a hithau ond yn 26 oed. Cafodd ei chladdu ym Mynwent Eglwys Llantysilio ar 24 Mawrth. Mae'r gofeb yn nodi mai Bwlch oedd eu preswylfa, ond mae'r cofnod claddu yn nodi eu bod yn byw ym Mhlas Bodidris!

Mae'r panel isaf yn nodi marwolaethau cynharach Simon a Richard Jones, sef ewythrod Edward, a'i frawd Charles.

*Cofeb y Teulu Jones.*


Married 1721
Edwd Jones & Elizabeth Jones, Apr. 21
Elizabeth Evans, Jun. 19

*Priodas Edward ac Elizabeth ym mis Ebrill 1721 (uwch) a Claddedigaeth Elizabeth Jones yn 1722 (isod).*


Elizabetha Jones uxor Edvardi Jones Gener de Bodidris.
Sepulta erat apud Llantysilio vicessima Quarta die Martij 1721/2
Hugh: Moses x Evan: Jones C: W:



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.

## Y ffenestri yn Eglwys Llantysilio


### Y Ffenestr Orllewinol

Mae'r ffenestr orllewinol, a grëwyd rhwng 1890 a 1895, yn enghraifft syfrdanol o ffurf gyn-Raffaëlaidd, gydag arlliwiau cnawd sy'n dod yn fyw yn haul hwyr y prynhawn, yn enwedig wynebau'r ceriwbiaid yn y rhosyn yn y pen uchaf. Cafodd y ffenestr ei gwneud a'i gosod gan gwmni Shrigley and Hunt o Swydd Gaerhirfryn, gyda'r dyluniad, Angelic Chorus, gan un o'u dau brif ddylunydd Carl Almquist, sef artist gwydr lliw a anwyd yn Sweden ond a dreuliodd ei fywyd proffesiynol i gyd ym Mhrydain. Comisiynwyd y ffenestr er cof am Gertrude Edwards o Blas Trefor, a fu farw ym mis Ionawr 1890 yn ddim ond 22 oed. Cafodd Gertrude ei chladdu ym mynwent yr eglwys.




*Y Ffenestr Orllewinol.*

### *Y Ffenestr Ddwyreiniol*



*Y Ffenestr Ddwyreiniol.*

Gosodwyd y ffenestr ddwyreiniol, a ddyluniwyd gan Clayton a Bell o Lundain, yn 1893. Talwyd amdani gan Theodore Martin a Helena Faucit Martin a oedd yn byw ym Mhlas Bryntysilio gerllaw. Mae eu henwau wedi'u cofnodi yn y paneli isaf sydd wedi'u cuddio gan wrthgefn yr allor a godwyd er cof am y rheiny a gollwyd yn y Rhyfel Mawr tua 26 mlynedd yn ddiweddarach. Tybir bod yr wrthgefn wedi'i gosod yn fwriadol i guddio'r cysegriad i St Theodore a'r Foneddiges Helena yn y paneli isaf. Roedd yn cymryd lle ffenestr arall, a gomisiynwyd gan Charlotte Andrews ac Amelia Lolley o Blas Newydd, ac fe osodwyd honno fel ffenestr orllewinol yn Eglwys Trefor. Cofnododd y papur newydd lleol "It is not too much to say, that the old window was an unpleasing specimen of a barbarous style, and its removal has long been desired by the parish".



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.



## Ffenestr y Gwahanglwyfus?

Yn y wal ogleddol mae ffenestr bengron fechan, sydd ag ystlysbost a lintel wedi'u gwneud o ddarnau o slabiau beddrodol sy’n cynnwys addurniadau o'r 13eg neu'r 14eg ganrif. Mae’r ffenestr yn cynnwys hen wydr. Mae’n bosibl bod y ffenestr wedi’i gosod fel ffenestr y gwahanglwyfus (er mwyn galluogi pobl â’r gwahanglwyf i wylio’r cymun, heb y perygl o heintio’r gynulleidfa) yn yr Oesoedd Canol, ond roedd lefelau’r gwahanglwyf wedi prinhau o 1400 ymlaen ac felly ymddengys yn fwy tebygol mai rhyw fath o ecsentrigrwydd o Oes Fictoria neu ychydig yn gynharach yw’r ffenestr. Mae’r ffigwr isaf yn dangos Sant James o Compostella, nawddsant y pererinion.





*Ffenestr Orllewinol y Gogledd.*



*Ffenestr ganol y Gogledd.*

## Y Ffenestri Gogleddol

Gosodwyd y ddwy ffenestr pen sgwâr yn y wal ogleddol er cof am ddau aelod o deulu John Bond Ysw., o Pennyburn Mills, Londonderry. Mae’r ffenestr fwyaf gorllewinol er cof am ei weddw Sophia (Crumpe gynt), a aeth ymlaen i briodi Hildebrand Henry Oakes, a bu farw yn 1891. Mae’r ffenestr arall er cof am fab ieuengaf John, sef Oliver a fu farw yn Fairview, Llangollen yn 1861.



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.



Mae'r ffenestr ddwyreiniol yn y wal ddeheuol yn coffáu'r cyfreithiwr ymddeoledig, William de Vins Wade o Blas Rhysgog, a fu farw ym 1926. Dim ond yn ddiweddar oedd William a'i wraig Alice wedi dod i Langollen i ymddeol, ar ôl byw cyn hynny yn Great Dunmow yn Essex.

*Ffenestr Ddwyreiniol y De.*

Mae'r ffenestr ganol yn llawer mwy modern, er cof am Walter ac Annie Jones o Blas Bronheulog, Llangollen ym 1972. Cafodd ei gwneud gan gwmni Wippell Mowbray Church Furnishings a hon oedd y ffenestr olaf i gael ei dylunio gan Miss T.M. Cox o Gaer, a hithau'n 77 mlwydd oed a'i golwg yn pallu.




*Ffenestr ganol y De.*



© 2025 Amgueddfa Llangollen Museum.